# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd** R M Granville **Ward: Corneli**

**Plaid: Y Blaid Lafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2025. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**<u>Y Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Corneli** ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor, ac yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 26 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon:

Y <u>Cynghorydd Richard Granville</u>

**<u>Gweithgareddau Etholaethol</u>**

Llywodraethwr Ysgol Gynradd Afon y Felin yng Nghorneli.

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd ar y cyd â'r Cynghorydd Elaine Winstanley ac rydym wedi cydweithio i godi materion gyda'r awdurdodau perthnasol.

**<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**

Ynghyd â'r Cyngor Cymuned, trefnon ni ddigwyddiadau ar gyfer Corneli. Am y tro cyntaf, cynhaliom wasanaeth coffa yn ein carreg goffa newydd, gyda chlerigwyr, cyn-filwyr a chynrychiolwyr dinesig lleol.

Hefyd, cysgodi aelodau'r cabinet.

**Y Cynghorydd: R M Granville** **Dyddiad:** 11/06/2025